# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (DWYFOR) 23-11-11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Robert J. Wright, (Cadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor)

Y Cynghorwyr: Glyn Roberts, Sion Selwyn Roberts ac R. H. Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws, (Swyddog Priodoldeb) Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Alwyn Thomas, (Swyddog Gorfodi Trwyddedau) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill yn bresennol**: Mr X (perchen cerbyd hacni mewn cysylltiad ag eitem eithriedig a), Mr K, (gweithredwr hurio preifat mewn cysylltiad ag achos disgyblaeth b).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr: Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd ac Ieuan Roberts

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, Rhan 4,Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolyn dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolyn nac am ei faterion ariannol a busnes. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 3. ACHOS DISGYBLAETH PERCHENNOG HACNI

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu.

Dilynwyd y drefn ffurfiol ar gyfer ystyried yr achos a gofynnwyd i'r aelodau ystyried achos disgyblaeth Mr X , sy'n berchennog cerbyd hacni.

Nodwyd bod yr Uned Drwyddedu wedi derbyn hysbysiad oddi wrth Adran Gweinyddu Cyfiawnder Heddlu Gogledd Cymru yn nodi bod Mr X wedi derbyn rhybudd mewn cysylltiad â lladrad.

Yn ôl polisïau ac amodau 'roedd gofyn i Mr X gyflwyno gwybodaeth i'r Adran Drwyddedu ynglŷn â digwyddiad o'r fath, ond nid oedd wedi gwneud hynny.

Rhoddwyd cyfle i Mr X gyflwyno gwybodaeth ar lafar ac eglurodd ei fod wedi cymryd tacluswyr olwynion (wheel trims) oddi ar gerbyd gan feddwl bod y cerbyd wedi ei adael fel sgrap.

Ymddiheurodd Mr X i'r Is-bwyllgor ac mewn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd iddo gan aelodau, nododd y canlynol:

- Nad oedd wedi edrych a oedd treth wedi ei dalu ar gyfer defnyddio'r cerbyd fod ar y ffordd.
- Nad oedd wedi ceisio agor drysau'r cerbyd.
- Cadarnhaodd fod y tacluswyr olwynion wedi eu dychwelyd i'r perchennog a bod y perchennog yn fodlon gyda hynny.

Cyfeiriodd y Swyddog Priodoldeb at bolisïau parthed collfarnau gan nodi y dylid ystyried pob achos yn unigol ar ei ffeithiau ei hun ac mai sicrhau diogelwch y cyhoedd oedd y mater pwysicaf. Eglurodd bod polisi'r Cyngor yn darparu:
*"Yn gyffredinol, gall cais sy'n dangos rhybudd ei ystyried a'i gymeradwyo ond yr ystyriaeth bennaf yw gwarchod y cyhoedd".*

Gadawodd y Rheolwr Trwyddedu, y Swyddog Gorfodi Trwyddedau a Mr X yr ystafell i alluogi'r Is-bwyllgor i ystyried y mater.

Wrth i'r Aelodau ystyried yr achos gwnaed y prif sylwadau canlynol:

- Nad oedd tystiolaeth fod Mr X wedi troseddu yn y gorffennol.
- Nad oedd y digwyddiad wedi amharu ar ddiogelwch y cyhoedd.
- Yr hyn sydd ym mholisi'r Cyngor

**PENDERFYNWYD cyflwyno rhybudd i Mr X gan nodi y bydd y mater yn aros ar gofnodion y Cyngor ac yn cael ei gymryd i ystyriaeth pe byddai Mr X yn ymddangos gerbron yr Is-bwyllgor hwn yn y dyfodol.**

## 6. SEFYLLFA GWEITHREDWR HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried achos yn ymwneud â Mr K, sy'n ddeilydd trwydded gweithredwr hurio preifat.

Dilynwyd y drefn ffurfiol ar gyfer ystyried yr achos ac amlinellwyd y cefndir gan y Rheolwr Trwyddedu. Gwnaed y prif bwyntiau canlynol:

- Bod Mr K wedi ymddangos gerbron yr Is-bwyllgor hwn yn y gorffennol.
- Bod ymdrechion teg wedi eu gwneud ers hynny i gynorthwyo Mr K a cheisio sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Pholisïau ac Amodau Gweithredwr Hurio Preifat Cyngor Gwynedd.
- Bod y problemau'n parhau gyda Mr K yn methu mynd â cherbydau i gael eu harchwilio ar gyfer prawf mecanyddol y Cyngor wedi i apwyntiadau gael eu trefnu.
- Bod modd ail-drefnu'r apwyntiadau, ond nad yw Mr K yn galw i wneud hynny.
- Y gallai'r wybodaeth ynglŷn â nifer y cerbydau a ddefnyddir gan Mr K fod wedi newid ers i'r adroddiad ysgrifenedig gael ei chwblhau.

Ymhelaethodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedau ei bod yn ofynnol i'r cerbydau gael eu harchwilio ar gyfer y 'Prawf MOT' arferol. Yn ogystal rhaid i bob cerbyd gael ei archwilio ar gyfer prawf mecanyddol y Cyngor. Yn gyffredinol, dilynir patrwm o drefnu prawf mecanyddol y Cyngor chwe mis wedi'r Prawf MOT.

Ychwanegodd fod gan Mr K 15 o gerbydau ar hyn o bryd a bod 5 ohonynt heb gael eu harchwilio ar gyfer prawf y Cyngor.

Pwysleisiodd y swyddog fod holl waith papur Mr K yn gywir gyda phrawf MOT ac yswiriant y cerbydau'n gwbl dderbyniol. Fodd bynnag, nododd fod trafferthion yn codi oherwydd bod Mr K yn peidio cyd-fynd â'r angen i weithredu yn unol â threfniant i fynd â'r cerbydau ar gyfer prawf mecanyddol y Cyngor.

Nododd ei bod yn anodd i'r Adran Drwyddedu warchod y cyhoedd heb gydweithrediad gweithredwyr hurio preifat.

Rhoddwyd cyfle i Mr K gyflwyno gwybodaeth ar lafar a gwnaed y prif sylwadau canlynol ganddo:

- Nad oes tegwch yn cael ei ddangos tuag ato gan yr Adran Drwyddedu.
- Ei fod yn ymdrechu i gysylltu â'r Adran ond nad ydynt yn ymateb i'w alwadau.
- Nad yw wedi bod yn derbyn dangosiad i brofi ei fod wedi mynd â cherbydau i fodurdy ar gyfer prawf mecanyddol y Cyngor, ac oherwydd hyn fod galwadau'n cael eu gwneud arno i fynd â cherbydau i gael eu profi mor aml â dwywaith mewn chwe mis.
- Ei fod bellach yn mynnu cael dangosiad er mwyn sicrhau fod y sefyllfa'n deg.
- Ei fod wedi bod yn rhedeg y busnes ers ugain mlynedd ac nad oes unrhyw gŵyn wedi cael ei wneud yn ei erbyn gan gwsmeriaid
- Fod rhai o'i gerbydau'n mewn modurdai'n cael eu trwsio ar hyn o bryd, ac os nad oes pwrpas i'r prawf mecanyddol os nad yw'n bosib iddo eu defnyddio.

Mewn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd i Mr K gan yr aelodau, nododd ei fod yn cael mis o rybudd ynglŷn â mynd â cherbyd am brawf mecanyddol y Cyngor. Ychwanegodd nad oedd cofnodion yr Uned Drwyddedu'n gywir gan ei fod yn derbyn galwad i fynd â cherbydau am brawf bob pedwar mis yn hytrach na phob chwe mis fel ag y dylai fod.

Cadarnhaodd Mr K ei fod yn derbyn cymorth ar adegau er mwyn sicrhau bod yr holl waith papur sy'n gysylltiedig â'r cerbydau mewn trefn.

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedau fod ymdrechion yn cael eu gwneud i gynnal prawf mecanyddol y Cyngor chwe mis yn dilyn prawf MOT.

Fodd bynnag, pan mae cerbyd yn cael ei drwyddedu am y tro cyntaf, mae hyn yn ddibynnol ar ddyddiad y prawf MOT oherwydd bod angen prawf hacni, prawf MOT a phrawf mecanyddol y Cyngor. Yn dilyn y flwyddyn gyntaf dilynir y patrwm o brawf bob chwe mis.

Rhoddwyd cyfle i'r swyddogion trwyddedu grynhoi'r achos ac ymateb i unrhyw sylwadau a thynnwyd sylw at y materion canlynol ganddynt:

- Bod tegwch cyson yn cael ei ddangos tuag at Mr K
- Bod swyddog yn bresennol yn y swyddfa i ymateb i alwadau y rhan helaethaf o'r amser
- Bod rhaid sicrhau cydweithrediad gweithredwyr hurio preifat fel y gellir gwarchod y cyhoedd.
- Nad oedd modd i'r swyddogion wybod lle 'roedd cerbydau Mr K i gyd ar unrhyw adeg ac os oeddent yn cael eu defnyddio, a thra bod ganddynt drwydded, 'roedd hi'n bosib eu bod ar y ffordd.

Rhoddwyd cyfle i Mr K i wneud unrhyw sylwadau pellach a nododd nad oedd y cerbydau nad oedd wedi derbyn prawf mecanyddol y Cyngor yn cael eu defnyddio ganddo ac na welai ei fod wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Gadawodd y Rheolwr Trwyddedu, y Swyddog Gorfodi Trwyddedau a Mr K yr ystafell i alluogi'r Is-bwyllgor i ystyried y mater.

Wrth i'r Aelodau ystyried yr achos gwnaed y prif sylwadau canlynol:

- Bod Mr K wedi ymddangos gerbron yr Is-bwyllgor yn y gorffennol ond bod problemau'n parhau.
- Bod rhaid i'r Is-bwyllgor gymryd camau i sicrhau diogelwch y cyhoedd.
- Byddai'n bosib i Mr K ddefnyddio'r holl gerbydau oedd yn ei feddiant er ei fod yn egluro nad oedd hynny'n digwydd
- Gallai Mr K fod yn gorfod ymdrin â gwaith papur sylweddol a bod hyn yn achosi trafferthion iddo.
- Mai diffyg cyfathrebu oedd prif achos y trafferthion

**PENDERFYNWYD:**

**a) Peidio diddymu nac atal trwydded Mr K ar hyn o bryd.**

**b) Bod trefniant yn cael ei wneud i'r Swyddogion Trwyddedu a Mr K ddod gerbron yr Is-bwyllgor hwn ddiwedd mis Ionawr, 2012. (*Yn ddiweddarach trefnwyd i gynnal y cyfarfod ar 27 Ionawr, 2012).***

**c) Bryd hynny bydd yr Is-bwyllgor yn disgwyl adroddiad gan y swyddogion ar y sefyllfa o ran cydymffurfiaeth Mr K â Pholisi ac Amodau Gweithredwr Hurio Preifat Cyngor Gwynedd.**

**ch) Os na fydd y sefyllfa yn foddhaol bryd hynny, bydd rhaid i'r Is-bwyllgor ystyried cymryd camau mwy difrifol megis atal neu ddiddymu'r drwydded,.**

**d) Yn y cyfamser bydd yn rhaid i Mr K gadw mewn cysylltiad wythnosol gyda'r Swyddogion Trwyddedu i'w diweddaru ar y sefyllfa ac i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir ganddynt**

**dd) Byddai disgwyl i Mr K sicrhau ei fod ar gael ar ddyddiad y cyfarfod nesaf a byddai gwybodaeth yn cael ei roi iddo mewn da bryd, fel y gellir cael sicrwydd y bydd yn bresennol.**

Galwyd y swyddogion a chynrychiolydd Mr K yn ôl i'r ystafell a phwysleisiodd y Cadeirydd fod yr Is-bwyllgor yn ystyried y mater yn un difrifol a bod disgwyl i Mr K a'r Swyddogion Trwyddedu gydweithio fel y gellir cael trefn ar y sefyllfa erbyn y cyfarfod ym mis Ionawr 2012.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:30pm a daeth i ben am 3:15pm